

Mater y Mis - Chwefror 2024



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**

Mis diwethaf, clywon ni eich barn ar gael chwech wythnos o wyliau haf.

Dyma blas ar eich atebion:

1,000

Gwnaeth dros 1,000 ohonoch
o 12 Awdurdod Lleol
rhannu eich teimladau gyda ni



**Treulio amser gyda
teulu a ffrindiau**

**Amser i baratoi ar gyfer
blwyddyn nesaf**

Amser i ymlacio

**Dim yn poeni neu'n
meddwl am ysgol**

**Amser i ganolbwyntio ar hobiau
a diddordebau**



**Dim byd - dwi'n
caru'r gwyliau!**

**Dychwelyd i'r ysgol /
dychwelyd i'r drefn**

Dwi'n diflasu

**Gweld eisiau
ffrindiau**

Mae Mater mis Chwefror yn gofyn - beth fyset ti'n ei wneud taset ti'n arwain ar Gymru?

Mae'n cysylltiedig ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

Eich hawl i rannu eich barn ac i oedolion i'w gymryd o ddifrif

Mater mis yma: Prif Weinidog newydd - beth fyset ti'n newid taset ti'n arwain ar Gymru?



Nodiadau i athrawon/gweithwyr ieuenctid:

Linc fideo - <https://www.youtube.com/watch?v=NrrRDQgMRvA>


Efallai bydd rhai pobl ifanc yn gofyn a fydd etholiad cyhoeddus i ethol Prif Weinidog newydd. Na yw'r ateb.

Dyma pam:

- Enillodd Plaid Lafur Cymru etholiad y Senedd yn 2021, a nhw bydd yn rheoli yng Nghymru o leiaf tan etholiad nesaf y Senedd, sydd am ddiwedd yn 2026.
- Mark Drakeford yw arweinydd Llafur Cymru ac felly fe yw'r Prif Weinidog. Mae e wedi penderfynu camu i lawr fel arweinydd Llafur Cymru ac fel Prif Weinidog, a bydd aelodau Llafur Cymru nawr yn ethol arweinydd newydd, ac felly Prif Weinidog newydd.
- Bydd etholiad Senedd nesaf Cymru yn 2026, ac yn yr etholiad yma bydd y cyhoedd yn dewis pa blaid bydd yn arwain ar Gymru tan 2031.

Beth fyset ti'n newid taset ti'n Brif Weinidog?

Efallai bydd y lluniau yma yn eich helpu chi (mae nodiadau ar y sleid hefyd)



Mae'r lluniau ar y sleid yma yn dangos rhai o'r pethau mae gan Lywodraeth Cymru pwerau drostynt: Addysg; Trafnidiaeth; Gofal iechyd; Tai; Chwaraeon a hamdden; Gofal iechyd meddwl; ailgylchu a'r amgylchedd; rhai o help ariannol fel prydau ysgol am ddim a help i brynu gwisg ysgol

Lawrlwythwch y dudalen yma fel PDF: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/01/Symbolau-Prif-W.pdf>

- Rhannwch eich syniadau gyda ni trwy ddefnyddio y côd QR neu y linc
- Gall pobl ifanc wneud hyn yn annibynnol neu fe all athro gwneud ar ran pawb



<https://online1.snapsurveys.com/xqyuhc>

Linc yr holiadur: <https://online1.snapsurveys.com/xqyuhc>

Diolch!

Mater y Mis ar gyfer mis Mawrth yw:

- **Cinio ysgol**

Bydd hyn ar gael ar ein gwefan ar 4 Mawrth

Syniadau ar gyfer dysgu mwy



Dyma syniadau ar gyfer adnoddau i'w defnyddio i ddysgu mwy am wleidyddiaeth yng Nghymru:

- Mae gan y Comisiwn Etholiadol ystod eang o [adnoddau ar ddemocratiaeth](#). Mis yma maen nhw'n cyhoeddi adnodd sy'n edrych yn fanwl ar sut bydd y Brif Weinidog yn cael ei ethol.
- Defnyddiwch [becyn 'Ein Senedd'](#), gan Senedd Cymru, i ddysgu mwy am sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio yng Nghymru. A [dysgwch fwy am Senedd leuenctid Cymru](#).
- [Ffeindiwch allan pwy yw eich aelod o'r Senedd](#), ac ysgrifennwch atyn nhw. Dywewch wrthyn nhw beth hoffech chi newid am Gymru, a gofynnwch beth mae nhw yn ei wneud i gefnogi hyn.
- Eleni mae Achub Y Plant yn cynnal etholiad paralel i gydfynd gydag etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK General election). [Darllenwch fwy ar eu gwefan](#).
- Defnyddiwch ein hadnodd [Gwneud Gwahaniaeth](#), sy'n helpu pobl ifanc feddwl am ddefnyddio eu llais i greu newid.